Polisi Cyfrinachedd Conwy Ifanc

Fersiwn Hawdd

Byddwn yn gofyn ii ti am wybodaeth bersonol mewn rhai rhannau o'r safle. Mae gwybodaeth bersonol yn golygu unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n bosibl i dy adnabod di, fel cyfeiriad, rhif ffôn neu gyfeiriad ebost.

PAM EIN BOD YN CASGLU GWYBODAETH

Os wyt ti am ofyn cwestiwn i ni mae angen i ni gael dy gyfeiriad neu dy gyfeiriad ebost er mwyn ateb.

Cyfranwyr Conwy Ifanc

Er mwyn cadw mewn cysylltiad gyda'r rhai sy'n cyfrannu a chadarnhau eu bod yn byw yng Nghonwy mae angen i ni gael cyfeiriad. Ni fyddwn yn rhoi'r wybodaeth yma i unrhyw un arall oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith. Mae'n bosibl na fydd gan rai sy'n gohebu gyfrifiadur gartref a bydd yn rhaid i ni felly gysylltu gyda nhw trwy'r post i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Y GYFRAITH A NI

Allwn ni ddim ond defnyddio'r wybodaeth a gawn ni gennyt ti am y rhesymau a nodir ar y safle. Os bydd y rhesymau hynny'n newid bydd rhaid i ni ddweud wrthyt. Rhaid i ni roi copï o'r wybodaeth i ti os gofynni amdano. Mi allwn ni godi tâl arnat ti am gopïau. Rhaid i ni gadw dy wybodaeth yn ddiogel a pheidio â gadael i unrhyw un arall ei weld heb dy ganiatâd di.

Y GYFRAITH A TI

Galli ofyn am gael gweld dy wybodaeth ar unrhyw adeg.
Galli ofyn i ni newid y wybodaeth sydd gennym amdanat ar unrhyw adeg.
Galli ddweud wrthym ni am ddileu dy wybodaeth ar unrhyw adeg.
Galli gysylltu â ni ar: **info@conwyifanc.com**
neu:

Cydlynydd Gwybodaeth
Llyfrgell Llandudno
Mostyn Street
Llandudno
LL30 2RP

(01492 574010)

Fersiwn Llawn

Mathau o wybodaeth 'rydym yn ei gasglu a sut 'rydym yn ei gasglu.

Weithiau mae angen i Conwy Ifanc gasglu gwybodaeth bersonol am bobl. Fyddwn ni ddim ond yn casglu'r math yma o wybodaeth os bydd yn wybodaeth hanfodol. 'Rydym yn defnyddio ffurflenni electroneg i gasglu gwybodaeth amdanat ti (yn cynnwys dy gyfeiriad ebost a rhif ffôn symudol) a'r un sy'n defnyddio ("ti") gwefan Conwy Ifanc ("y Wefan") sy'n dewis llenwi ffurflenni o'r fath neu beidio.

Mathau o Wybodaeth

Gohebwyr Conwy Ifanc a Sefydliadau

Bydd angen i Conwy Ifanc gael enw a chyfeiriad unrhyw un sydd am fod yn ohebydd i Conwy Ifanc neu am gofrestru ei sefydliad fel aelod. 'Rwyt ti'n rhoi caniatâd penodol i Conwy Ifanc gasglu'r data yma i'r diben hwn trwy roi'r wybodaeth i Conwy Ifanc. Bydd Conwy Ifanc yn cadw cofnod o'r wybodaeth yma. Bydd unrhyw wybodaeth yr wyt ti'n ei roi i Conwy Ifanc yn cael ei ddefnyddio gan Conwy Ifanc yn unig ac ni fydd yn cael ei rannu gyda thrydydd person(au) (arwahan i'r rhai a nodir yn y cyswllt hwn) heb ofyn dy ganiatâd yn gyntaf. Yr unig adeg y byddwn yn gwneud hynny yw petai hi'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith i ddatgelu gwybodaeth.

'Rydym yn casglu'r wybodaeth yma er mwyn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad a'n gohebwyr ac i gadarnhau eu bod yn byw yng Nghymru. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn postio manylion am ddigwyddiadau Conwy Ifanc i'n gohebwyr. Ni fydd gan bob un o'n gohebwyr gyfleusterau ebost gartref felly mae angen i ni gael cyfeiriad post er mwyn anfon gwybodaeth atynt pan na ellir cysylltu â nhw trwy ebost.

Os wyt ti dan 12 oed rhaid i ni gael caniatâd ysgrifenedig fan dy rieni cyn y byddwn yn gallu casglu'r wybodaeth yma amdanat.

Dy Ardal

Efallai y bydd angen i ni wybod ym mha ardal awdurdod lleol yng Nghymru yr wyt ti'n byw a beth yw dy ddiddordebau cyffredinol. Os cawn ni'r wybodaeth yma gennyt mi allwn ni wella'r wybodaeth y byddwn yn ddarparu i ti a gallu rhoi'r wybodaeth sydd ei angen arnat ti. Wrth i wasanaethau Conwy Ifanc ymestyn mi fydd yna fwy o gyfleoedd i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir ar dy gyfer. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd Conwy Ifanc yn rhoi manylion i ti am wasanaethau a chynnyrch arall Conwy Ifanc a allai fod o ddiddordeb i ti ac yn cynnig cyfle i ti gael golwg arnyn nhw neu dderbyn gwybodaeth yn eu cylch.

Cysylltu â ni trwy'r wefan

Os wyt ti am gael ateb i unrhyw sylw neu gwestiwn y byddi yn ei ebostio ar y Wefan, rhaid i ni gael dy gyfeiriad ebost neu wybodaeth arall ar gyfer cysylltu â thi, er mwyn i ni fedru anfon ateb. Mae ein manylion cyswllt ni yn yr adran 'amdanom ni' ar y wefan. Os wyt ti am wneud sylw'n unig a ddim angen ateb, yna does dim rhaid i ti roi dy fanylion cyswllt i ni. Os na allwn ni ateb dy gwestiynau byddwn yn eu hanfon ymlaen i

rywun arall a all wneud hynny. Mewn achosion felly, dim ond y cwestiwn ei hun a ddatgelir ac ni roddir unrhyw wybodaeth ynglyn â phwy sy'n ei ofyn.

'Stafelloedd Sgwrsio

Yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd gennym stafelloedd sgwrsio a byddwn yn cymryd camau rhesymol i fonitro eu cynnwys. Ni fydd y cymedrolwr yn sensro dy sylwadau ond ni fydd yn caniatáu unrhyw beth sy'n sarhaus. Byddwn yn gofyn i ti am lysenw er mwyn i ti fedru sgwrsio heb roi dy enw. Tra'n defnyddio ein stafell sgwrsio cymer ofal i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol, er enghraifft, dy enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ysgol neu goleg neu unrhyw wybodaeth arall sy'n debyg o adael i rywun wybod pwy wyt ti. Gair i dy atgoffa bod y stafelloedd sgwrsio yn fforymau ar gyfer trafodaethau cyhoeddus ac mae unrhyw wybodaeth bersonol yr wyt ti'n ei roi yn ystod y trafodaethau hyn yn mynd i fod ar gael i gynulleidfa eang iawn. Nid yw Conwy Ifanc yn gyfrifol am gynnwys unrhyw beth anfonir gan ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn.

Dweud dy ddweud

Does dim data personol yn cael ei gasglu.

Petae ti'n ebostio'r dudalen hon i ffrind ni fyddem yn casglu unrhyw ddata o hynny. Mae dy gyfeiriad IP wedi'i logio'n otomatig gan serfiwr we Conwy Ifanc ac fe'i defnyddir i ganfod dy ddiddordebau yn y Wefan yn unig.

Defnyddwyr dan 12

Os wyt ti dan 12 yna gwna'n siwr dy fod yn cael caniatâd dy riant neu warcheidwad ymlaen llaw pryd bynnag yr wyt ti'n rhoi gwybodaeth bersonol i Conwy Ifanc trwy gyfrwng y Wefan. Mae gwybodaeth bersonol yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n golygu y gall rhywun dy adnabod, megis rhif ffôn, cyfeiriad ebost neu gyfeiriad cartref. Ni chaniateir i ddefnyddwyr dan 12 i roi unrhyw wybodaeth bersonol i ni heb y caniatâd hwn.

Pwy sy'n casglu'r Wybodaeth?

Tîm staff Conwy Ifanc sy'n rheoli'r holl wybodaeth a gesglir ac mae angen cyfrinair i gael mynediad i bob un o'r ffeiliau.

Sut mae'r wybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio?

Cesglir pob gwybodaeth bersonol am reswm penodol a byddwn yn dweud wrthyt ti beth yw hwnnw, neu mi fydd yn amlwg i ti ymhob achos beth yw'r diben. Os bydd yna newidiadau mawr yn y ffordd yr ydym yn defnyddio dy wybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod i ti trwy bostio hysbysiad amlwg ar ein tudalennau.

Diogelu Data

'Rydym wedi cymryd yr holl gamau perthnasol er mwyn cadw dy fanylion yn ddiogel ac ni fyddwn yn datgelu unrhyw ran ohonynt i unrhyw drydydd person heb dy ganiatâd.

Cysylltau i Wefannau Eraill

Mae'r Wefan yn cynnwys cysylltau i wefannau eraill nad oes a wnelo nhw ddim â Conwy Ifanc. Nid yw'r datganiad preifatrwydd hwn yn gymwys ar gyfer y safleoedd hyn ac nid yw Conwy Ifanc yn gyfrifol am gynnwys ac arferion y Gwefannau hynny.

Dy ddata personol

Bydd Conwy Ifanc yn cadw dy wybodaeth bersonol ar ei systemau cyhyd â dy fod yn defnyddio'r gwasanaeth yr wyt wedi gofyn amdano, ac yn ei ddileu os llwyddir i gwrdd a dy ddibenion neu os nad wyt ti'n dymuno parhau i gofrestru fel ddefnyddiwr personoledig. Mae gennyt yr hawl i ofyn am gopï o'r wybodaeth bersonol sydd gan Conwy Ifanc amdanat ti, ac mae hawl gennyt i weld dy wybodaeth di sydd gan Conwy Ifanc a, lle bo angen, gofyn am ei ddiwygio. Galli hefyd ofyn i ni ddileu, newid neu ddiweddaru dy ddata ar unrhyw adeg. Mae Conwy Ifanc yn cadw'r hawl i godi tâl am geisiadau'n ymwneud â gwybodaeth.

Galli wneud y cyfan hyn dy hun os wyt ti'n dymuno. Galli weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanat ti trwy logio mewn, yna clicio ar y 'clicia yma i ddiweddaru dy fanylion.' Os wyt ti am gael copi, galli brintio un yn syth oddi ar y sgrîn. Does yma ddim tâl am hyn.

Os oes gennyt ti unrhyw sylwadau, cysyllta â ni trwy'r safle neu ar:
info@conwyifanc.com

Os wyt am 'sgwennu atom, ein cyfeiriad yw:

Cydlynydd Gwybodaeth
Llyfrgell Llandudno
Mostyn Street
Llandudno

LL30 2RP

(dim ond ar ein fforwm y mae cookies yn weithredol)

Mae Conwy Ifanc yn cadw'r hawl ar unrhyw bryd i addasu, newid neu ddiweddaru'r polisi preifatrwydd hwn. [1] Ffeil testun fach yw cookie y gall gwefan ei gosod ar ddisg caled dy gyfrifiadur er mwyn, er enghraifft, casglu gwybodaeth ynglyn â dy weithgarwch ar y safle neu er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i ti ddefnyddio 'basged siopa' arlein i gadw cyfrif o'r eitemau yr wyt ti'n dymuno eu prynu. Mae'r cookie yn trosglwyddo'r wybodaeth hon yn ôl i gyfrifiadur y Wefan a hwnnw, fel arfer, yw'r unig gyfrifiadur all ei ddarllen. Nid yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gwybod bod cookies yn cael eu gosod ar eu cyfrifiaduron pan mae'n nhw'n ymweld â gwefannau. Os wyt ti am wybod pryd mae hyn yn digwydd, neu os nad wyt ti am iddo ddigwydd, galli osod dy borwr (browser) er mwyn dy rybuddio pan fydd gwefan yn ceisio gosod cookie ar dy gyfrifiadur.